

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Bro Morgannwg

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gyngor Bro Morgannwg i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Bro Morgannwg fodloni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a methu â bodloni un ohonynt.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Bro Morgannwg 7 ohonynt yn llawn, 2 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 1 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Bro Morgannwg wedi atgyfnerthu ei berfformiad yn fras yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, gan wneud gwelliannau mewn rhai meysydd a lefelau adnoddau tebyg i 2018/19. Mae rhai o'r dangosyddion defnydd yn uwch, gydag arlwy hyfforddiant a digwyddiadau'r gwasanaeth yn parhau i gael eu datblygu, ond gyda nifer y llyfrau a fenthycir yn lleihau yn arbennig. Erys meysydd sydd angen cymorth ychwanegol yn y pum Llyfrgell Gymunedol, wrth i'r trefniadau barhau i ymwreiddio, ac mae'r oriau agor yn dal i fod yn drawiadol o isel. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu ehangu mynediad drwy ei fodel Open+, gan alluogi defnydd gyda'r nos yn ystod oriau pan nad yw'r staff yn gweithio mewn mwy o lyfrgelloedd yn 2019/20. Mae'r ffordd y bydd y trefniadau hyn yn effeithio ar foddhad cwsmeriaid eto i'w weld, gyda'r gwasanaeth yn cyflwyno adroddiad ar ôl i'w arolygon defnyddwyr gael eu cwblhau yn 2019/20.

- Mae'r gallu i ddarparu rhaglen lawn o sesiynau sgiliau yn y pum Llyfrgell Gymunedol yn y gwasanaeth yn parhau i achosi problemau, ond mae cymorth ar gyfer iechyd a lles wedi cael ei ymestyn yn 2018/19.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu, gan adlewyrchu'r hyfforddiant ychwanegol a gynigir, gyda pherfformiad dipyn yn uwch na'r lefel ganolrifol.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau / gweithgareddau hefyd wedi parhau i gynyddu; cymysg yw'r lefelau defnydd fel arall, gyda chynnydd yn nifer yr ymwelwyr, ond lleihad yn nifer y benthyciadau ffisegol.
- Mae buddsoddiad yr awdurdod mewn adnoddau ar-lein yn cyfrannu at y ffaith ei fod yn dal i gyflawni'r targed ar gyfer eitemau a gaffaelwyd (DA 9), ac mae'r gofynion ar gyfer buddsoddi mewn adnoddau Cymraeg yn dal i gael eu bodloni hefyd.
- Mae'r lefelau staffio wedi aros yr un fath fwy neu lai ers 2018/19, a chollwyd y targed ar gyfer staff yn gyffredinol; mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer staff cymwysedig, ond mae'n dibynnu ar nifer o staff CALI nad ydynt wedi'u cyflogi mewn rolau proffesiynol i wneud hynny.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw yn debyg i 2018/19, gyda chyfanswm yr oriau agor blynyddol ymhlith yr isaf yng Nghymru o hyd.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Bro Morgannwg yn parhau i gyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn methu â chyflawni HG12 am nad oes strategaeth llyfrgelloedd ar waith ar hyn o bryd; nodir bod cynlluniau i gyhoeddi Cynllun Llyfrgelloedd yn 2019/20 ac y bydd yr hawl hon hefyd yn cael ei chyflawni'n llawn bryd hynny. Rhoddir mynediad am ddim i ystod llawn o wasanaethau yn llyfrgelloedd y cyngor a'r llyfrgelloedd a gefnogir gan y gymuned, sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i fod yn bartner gweithredol mewn grwpiau a mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gyda'r nod o ymestyn mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru, ac yn y gwasanaeth hwn y lleolir rheolwr prosiect system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Bro Morgannwg yn cyflawni 7 yn llawn, 2 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 1.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol	Cyflawni'n rhannol
a) Cymorth TGCh	✓
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	x
c) Cymorth e-lywodraeth	✓
d) Datblygu darllenwyr	✓
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles	Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓ Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad manau gwasanaeth	✓ Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol	Cyflawni'n llawn
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	✓
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x
DA 10 – Adnoddau Cymraeg	Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x

DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	✓	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Mae'r perfformiad o ran hyn yn debyg yn fras i 2018/19. Er bod y gwasanaeth yn dal i gyflawni DA 10 mae gostyngiad mewn lefelau buddsoddi yn golygu mai dim ond un o'r meysydd targed ar gyfer adnoddau Cymraeg sy'n cael ei gyflawni bellach.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2018/19 neu 2019/20. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nid yw gwasanaeth Bro Morgannwg wedi cynnal ei arolygon o ddefnyddwyr eto, a nodir ei fod yn bwriadu eu cynnal yn ystod 2019/20.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	dd/b		60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	dd/b		38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	90%	=18/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Bro Morgannwg ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Casgliadau Print Bras – effaith mynediad at gasgliadau print bras a'r cymorth a roddodd y staff i fenyw ymddeoledig a oedd â phroblemau gyda'i golwg a chlefyd Parkinson. Mae cymorth y staff yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac mae'n golygu llawer iddi, fel darllen yd brwd, ei bod yn gallu parhau i ddarllen ei hun, gan ei helpu i ymdopi â'i phroblemau iechyd.

- Clwb Crosio - cyfarfod grŵp wythnosol yn Llyfrgell y Barri, gyda chymorth aelod o'r staff, y mae ganddo dros 20 o aelodau o bob oedran bellach. Mae'r clwb yn helpu aelodau i ddysgu sgiliau newydd, ond mae iddo fanteision cymdeithasol a llesiant pellgyrhaeddol. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn nodi cymaint y maen nhw wedi'i ddysgu, y ffordd y mae'r grŵp wedi eu helpu i wneud ffrindiau newydd a dod yn rhan o gymuned, a'r ffordd y mae'n mynd i'r afael ag iselder ac ynysu.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Torfaen ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	dd/b	24%	82%	96%	24%	
c) iechyd a lles	dd/b	33%	62%	94%	35%	
d) lle diogel a chroesawgar	dd/b	90%	97%	100%	99%	
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	dd/b	81%	91%	98%	85%	
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	dd/b	93%	99%	100%	97%	
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b	65%	91%	95%		
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	dd/b	93%	97%	99%	95%	
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b	8.5	9.3	9.5	9.1	
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	47	=5/22	13	30	208	33
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	199	12/22	15	199	433	184
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	353	7/22	91	295	689	276
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	4,293	5/22	2,596	3,969	7,170*	4,079
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	345	22/22	345	885	2,205	868
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	221	2/22	58	150	251	153
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²	783	8/22	95	602	1,424	847
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	9	13/22	5	10	14	9
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	33%	=4/22	14%	25%	63%	32%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	152	2/21	3	30	214	159
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	9,806	1/21	90	1,477	9,806	11,939

DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£14,614	5/22	£7,181	£12,145	£19,449	£14,893
b) % ar staff	56%	16/22	47%	62%	78%	55%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	16/22	8%	13%	21%	11%
% ar offer ac adeiladau	6%	7/22	0.4%	4%	25%	2%
% ar gostau gweithredol eraill	27%	6/22	0.3%	16%	37%	32%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£146	15/22	£0	£467	£8,829	£150
DA 15 – Cost net am bob ymweliad						
	£1.90	8/22	£1.18	£1.82	£2.52	£1.82
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.75%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	dd/b		0.00%	0.28%	7.99%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân
² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2018/19 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo
³ fesul 10,000 y boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2018/19).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw gwasanaeth Bro Morgannwg wedi cynnal ei arolygon o ddefnyddwyr eto, y bwriedir eu cynnal yn 2019/20. Mae'r gallu i ddarparu rhaglen lawn o sesiynau sgiliau yn y pum llyfrgell gymunedol yn y gwasanaeth yn parhau i achosi problemau, ond nodir y caiff cymorth ychwanegol ei ddarparu yn 2019/20, gan ei gwneud yn bosibl i hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth gael ei ddarparu ym mhob llyfrgell. Fodd bynnag, mae cymorth ar gyfer iechyd a lles wedi cael ei ymestyn yn 2018/19, a bydd mwy o lyfrgelloedd yn cynnal clybiau llyfrau a phartneriaethau gwybodaeth am iechyd. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu, gyda darpariaeth estynedig a systemau cofnodi gwell ar waith, ac mae'r perfformiad o ran hyn dipyn yn uwch na'r lefel ganolrifol. Mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu hefyd ers 2017/18.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Bro Morgannwg yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell. Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi parhau i gynyddu yn 2018/19 ac mae'r perfformiad dipyn yn uwch na'r lefel ganolrifol bellach. Cymysg yw'r lefelau defnydd fel arall, gyda mwy o ymwelwyr, aelodau a benthycwyr gweithredol, ond ceir rhywfaint o ostyngiad o ran benthyciadau ffisegol, er bod cynnydd cyfatebol yn nifer y lawrlwythiadau electronig. Mae nifer y rhith-ymweliadau wedi gostwng gryn dipyn, ond nodir bod problem adrodd yn golygu nad yw'r ffigur yn cynnwys ymweliadau uniongyrchol â'r catalog ar-lein; ymdrinnir â'r mater hwn er mwyn sicrhau proses adrodd fwy cywir yn 2019/20.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Mae gwariant ar ddeunyddiau wedi gostwng ychydig, ond mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion ar gyfer eitemau a gaffaelwyd (DA 9), gyda'r awdurdod yn darparu adnoddau ar-lein estynedig yn uniongyrchol. Mae gwariant ar adnoddau i blant wedi parhau ar yr un lefel, ond mae'r buddsoddiad mewn deunyddiau Cymraeg wedi gostwng, er bod y gwasanaeth yn dal i gyflawni'r targed gwariant cymesur, gan ei alluogi i barhau i gyflawni DA 10. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol yn parhau ar yr un lefel â 2018/19, ac mae'r defnydd a wneir ohonynt wedi cynyddu ychydig. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofyniad o ran cyflenwi ceisiadau, a hynny ar lefel debyg.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae nifer y staff, a lefelau staffio proffesiynol wedi parhau ar yr un lefel fwy na lai yn 2018/19, gyda chynnydd bach iawn mewn staff CALI a gofnodwyd. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer staff cymwysedig, ond fel y nodwyd y llynedd, nid yw tua thraean o'r niferoedd a nodwyd wedi'u cyflogi mewn swyddi sy'n gofyn am gymhwyster mewn llyfrgellyddiaeth. Mae'n dal i fethu â chyrraedd lefel y targed staffio cyffredinol. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran buddsoddi yn natblygiad staff, ond ar lefel is gan fod system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan wedi cael ei rhoi ar waith bellach. Er bod cyfraniadau gwirfoddolwyr wedi gostwng ychydig, Bro Morgannwg sy'n cofnodi'r cyfraniad uchaf gan wirfoddolwyr yng Nghymru o hyd. Fel o'r blaen, mae'r ffigur hwn yn cynnwys y gwirfoddolwyr yn y pum Llyfrgell Gymunedol sy'n rhan o'r gwasanaeth statudol, lle cyfrannodd 124 o wirfoddolwyr dros 90% o gyfanswm oriau gwirfoddolwyr.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw yn debyg yn fras i 2017/18, gyda mân newidiadau yn unig o ran cyllidebau staffio a deunyddiau, ac mae Bro Morgannwg yn parhau i fuddsoddi yn ei ystâd lyfrgelloedd o'i gyllideb gyfalaf. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi cynyddu ychydig ar ôl i oriau llyfrgelloedd cymunedol gael eu hestyn, ond maent yn dal dipyn yn is na lefel y targed ac ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu 16 awr heb staff 'y tu allan i oriau' yr wythnos mewn un llyfrgell, gan ddefnyddio technoleg Open+, ac mae'r gwasanaeth wedi nodi bod cynlluniau i estyn y ddarpariaeth hon i'w fannau gwasanaeth eraill yn ystod 2019/20.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Unwaith eto, mae Bro Morgannwg yn nodi ei gyfraniad o ran themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru: *Ffyniannus a Diogel*, drwy fynediad at gyfleusterau a chymorth TGCh, a phrofiad o wirfoddoli sydd wedi arwain at gyflogaeth; *Iach ac Egniol*, yn darparu adnoddau a gweithgareddau sy'n cefnogi llesiant personol a chymdeithasol; *Uchelgeisiol ac yn Dysgu*, yn cefnogi llythrennedd o oedran cynnar; ac *Unedig a Chysylltiedig*, yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid sector a chymunedol i gydweithredu wrth ddarparu gwasanaethau.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Bro Morgannwg yn nodi cynlluniau i ymestyn ei

fodel Open+ llwyddiannus, gan ddarparu mynediad heb staff 'y tu allan i oriau' ychwanegol ym mhob un o'i ganghennau yn 2019/20. Bydd datblygu cyfleuster Makerspace yn Llyfrgell Penarth hefyd yn digwydd dros y flwyddyn sydd i ddod, ar ôl oedi yn 2018/19. Mae mentrau eraill yn cynnwys cynlluniau i dreialu benthycia llechi i ddefnyddwyr hŷn sydd fel arall wedi'u hallgáu'n ddigidol, a gosod darllenwyr cardiau sy'n ei gwneud yn bosibl i wneud taliadau mewn mannau gwasanaeth mewn llyfrgelloedd.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Bro Morgannwg wedi atgyfnerthu ei berfformiad yn fras yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, gan wneud gwelliannau mewn rhai meysydd a lefelau adnoddau tebyg i 2018/19. Mae rhai o'r dangosyddion defnydd yn uwch, gydag arlwy hyfforddiant a digwyddiadau'r gwasanaeth yn parhau i gael eu datblygu, ond gyda nifer y llyfrau a fenthycir yn lleihau yn arbennig. Erys meysydd sydd angen cymorth ychwanegol yn y pum Llyfrgell Gymunedol, wrth i'r trefniadau barhau i ymwreiddio, ac mae'r oriau agor yn dal i fod yn drawiadol o isel. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu ehangu mynediad drwy ei fodel Open+, gan alluogi defnydd gyda'r nos yn ystod oriau pan nad yw'r staff yn gweithio mewn mwy o lyfrgelloedd yn 2019/20. Mae'r ffordd y bydd y trefniadau hyn yn effeithio ar foddhad cwsmeriaid eto i'w weld, gyda'r gwasanaeth yn cyflwyno adroddiad ar ôl i'w arolygon defnyddwyr gael eu cwblhau yn 2019/20.

ⁱMae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2018/19. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.